Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Cod Ymarfer Proffesiynol i Weithwyr: newidiadau allweddol

## Adran 1

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 1.1 Gweithio gydag unigolion mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a defnyddio hyn fel sail ar gyfer gofal cymdeithasol a chymorth. | 1.1 gweithio gydag unigolion a rhoi cymorth iddyn nhw mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a pharchu eu hurddas, eu preifatrwydd, eu crefydd, eu credoau a'u diwylliant | Wedi newid |
| 1.2 Parchu a, lle bo hynny'n briodol, hyrwyddo a chynnal hawliau, gwerthoedd, credoau, barn a dymuniadau unigolion a gofalwyr. | 1.2 parchu, cefnogi a hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn unigolion, gofalwyr, cyd-weithwyr na phobl eraill | Wedi newid |
| 1.3 Cefnogi unigolion er mwyn cynyddu eu gallu i wneud penderfyniadau a'u rheolaeth dros eu bywyd eu hunain. | 1.3 herio a/neu roi gwybod am unrhyw wahaniaethu, ac amddiffyn hawliau unigolion, eu gofalwyr, eu teuluoedd a fy nghyd-weithwyr | Wedi newid |
| 1.4 Gweithio gydag unigolion a gofalwyr mewn ffyrdd sy'n parchu eu hurddas, eu preifatrwydd, eu dewisiadau, eu diwylliant, eu hiaith a'u hawliau. | 1.4 helpu unigolion a gofalwyr i fynegi eu barn a'u dewisiadau. | Wedi newid |

| | | |
|---|---|---|
| 1.5 Sicrhau bod eich camau gweithredu yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. | | Wedi ei dynnu |

## Adran 2

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 2.1 Bod yn onest ac yn ddibynadwy. | 2.1 bod yn onest ac yn ddibynadwy | Heb newid |
| 2.2 Cyfathrebu mewn ffordd briodol, agored, gywir a syml. | 2.2 cyfathrebu mewn ffordd briodol, agored, glir ac ystyrlon | Wedi newid |
| 2.3 Mynd ati'n rhagweithiol i helpu unigolion a gofalwyr i fynegi eu barn a'u dewisiadau gan ddefnyddio'r dull a'r iaith o'u dewis. | 2.3 parchu gwybodaeth gyfrinachol a dim ond cael mynediad ato a'i ddefnyddio i gyflawni fy rôl | Wedi newid |
| 2.4 Parchu gwybodaeth gyfrinachol ac esbonio polisïau am gyfrinachedd yn glir i unigolion a gofalwyr. | 2.4 peidio â chamddefnyddio ymddiriedaeth unigolion a gofalwyr, na'r mynediad sydd gennyf at eu gwybodaeth bersonol, eu heiddo, eu cartref na'u gweithle | Wedi newid |
| 2.5 Bod yn ddibynadwy. | 2.5 esbonio polisïau ynghylch cyfrinachedd, derbyn rhoddion a ffiniau proffesiynol yn glir i unigolion, teuluoedd a gofalwyr, a dilyn y rhain bob amser | Wedi newid |
| 2.6 Anrhydeddu ymrwymiadau gwaith, cytundebau a threfniadau a, phan nad yw'n bosibl gwneud hynny, esbonio pam i unigolion a gofalwyr. | 2.6 bod yn ddibynadwy, gan wneud yr hyn y cytunir arno. Os na allaf wneud hyn, rhaid i mi esbonio pam i unigolion a gofalwyr | Wedi newid |

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 2.7 Datgan materion a allai greu gwrthdaro rhwng buddiannau a chymryd camau i sicrhau nad ydynt yn dylanwadu ar eich barn na’ch ymarfer proffesiynol. | 2.7 cydnabod a bod yn agored pan fydd fy muddiannau personol yn effeithio ar fy ngwaith, a chymryd camau i sicrhau nad ydyn nhw’n dylanwadu ar fy marn na fy ymarfer proffesiynol. | Wedi newid |
| 2.8 Glynu wrth bolisïau a gweithdrefnau ynghylch derbyn rhoddion ac arian gan unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr. | | Wedi ei dynnu |

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

## Adran 3

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 3.1 Gweithio gydag unigolion mewn ffyrdd sy'n cynyddu llesiant a chyfranogiad gweithredol sy'n cydbwyso eu hawliau a'u cyfrifoldebau. | 3.1 gweithio gydag unigolion a rhoi cymorth iddyn nhw mewn ffyrdd sy'n hybu eu llesiant a'u diogelwch | Wedi newid |
| 3.2 Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i hyrwyddo llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr. | 3.2 helpu unigolion a gofalwyr i godi pryderon neu gwyno, a chymryd eu cwynion o ddifrif, gan ddilyn y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol | Wedi newid |
| 3.3 Gweithio gydag unigolion a gofalwyr i gadw eu hunain yn ddiogel. | 3.3 gweithio gydag unigolion a rhoi cymorth iddyn nhw mewn ffyrdd sy'n cynyddu eu gallu i wneud penderfyniadau a'u rheolaeth dros eu bywyd eu hunain | Wedi newid |
| 3.4 Cydnabod a defnyddio'n sensitif ac yn gyfrifol y pŵer sy'n deillio o'ch gwaith gydag unigolion a gofalwyr. | 3.4 gweithio gyda chyd-weithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i hybu llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr, gan ddefnyddio systemau, polisïau a gweithdrefnau y cytunir arnynt i rannu gwybodaeth lle bo'n briodol | Wedi newid |

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
| --- | --- | --- |
| | **Rhaid i mi:** | |
| 3.5 Cefnogi unigolion a gofalwyr i fynegi pryderon neu wneud cwynion, cymryd cwynion o ddifrif ac ymateb iddynt neu eu trosglwyddo i'r person priodol. | 3.5 herio neu roi gwybod am bryderon, fel ymddygiad neu ymarfer anniogel neu beryglus, neu sy'n cam-drin, yn camfanteisio neu'n gwahaniaethu. | Wedi newid |
| 3.6 Defnyddio systemau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt i rannu gwybodaeth yn briodol ac yn brydlon â chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill. | | Wedi ei dynnu |
| 3.7 Defnyddio prosesau a gweithdrefnau perthnasol i herio a rhoi gwybod am ymddygiad ac ymarfer peryglus, sy'n cam-drin, yn camfanteisio neu'n gwahaniaethu. | | Wedi ei dynnu |
| 3.8 Codi pryderon gyda'ch cyflogwr neu awdurdod priodol lle gallai ymarfer cydweithwyr neu weithwyr proffesiynol eraill fod yn anniogel neu effeithio'n andwyol ar safonau gofal cymdeithasol a chymorth. | | Wedi ei dynnu |
| 3.9 Tynnu sylw eich cyflogwr neu'r awdurdod priodol at anawsterau yn ymwneud ag adnoddau neu anawsterau gweithredol a allai rwystro darpariaeth gofal cymdeithasol a chymorth diogel. | | Wedi ei dynnu |

**Adran 4**

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 4.1 Gweithio gydag unigolion i gydbwyso hawliau, cyfrifoldebau a risgiau. | 4.1 gweithio gydag unigolion a gofalwyr i gydbwyso risgiau â'u hawliau a'u dewisiadau personol | Wedi newid |
| 4.2 Dilyn polisïau a gweithdrefnau asesu risg i asesu a yw ymddygiad unigolion yn peri risg o niwed iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill. | 4.2 dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu perthnasol wrth weithio gydag unigolion a gofalwyr | Wedi newid |
| 4.3 Cymryd y camau gofynnol i leihau'r risg y bydd ymddygiad unigolion yn achosi niwed, neu niwed posib, iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill. | 4.3 dilyn polisïau a gweithdrefnau asesu risg i asesu a yw ymddygiad unigolion a gofalwyr yn peri risg o niwed iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill | Wedi newid |
| 4.4 Sicrhau bod cydweithwyr ac asiantaethau perthnasol yn cael gwybod am ganlyniadau a goblygiadau asesiadau risg. | 4.4 cymryd camau hanfodol i leihau'r risg y bydd ymddygiad unigolion a gofalwyr yn achosi niwed iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill | Wedi newid |
| | 4.5 codi ac, os oes angen, uwchgyfeirio unrhyw bryderon sydd gennyf am ddiogelwch unigolion, neu am lefel y gofal y mae pobl yn ei dderbyn yn fy ngweithle neu mewn unrhyw leoliad arall | Wedi ei ychwanegu |
| | 4.6 rhannu gwybodaeth os ydw i'n meddwl y gallai rhywun fod mewn perygl o niwed, gan ddilyn y gofynion diogelu data. | Wedi ei ychwanegu |

## Adran 5

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 5.1 Cam-drin, esgeuluso neu niweidio unigolion, gofalwyr neu gydweithwyr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. | 5.1 peidio â cham-drin, esgeuluso, niweidio, manteisio na chamfanteisio ar unigolion, gofalwyr na chyd-weithwyr | Wedi newid |
| 5.2 Camfanteisio ar unigolion, gofalwyr neu gydweithwyr mewn unrhyw ffordd. | 5.2 cynnal ffiniau proffesiynol â chyd-weithwyr, unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr bob amser | Wedi newid |
| 5.3 Camddefnyddio ymddiriedaeth unigolion a gofalwyr, na'r mynediad sydd gennyf at eu gwybodaeth bersonol, eu heiddo, eu cartref na'u gweithle. | 5.3 peidio â meithrin perthynas bersonol amhriodol â chyd-weithwyr, unigolion, eu teuluoedd na'u gofalwyr | Wedi newid |
| 5.4 Peidio â meithrin perthynas bersonol amhriodol ag unigolion, eu teuluoedd na'u gofalwyr. | 5.4 rhoi gwybod i fy nghyflogwr am unrhyw faterion a allai achosi gwrthdaro rhwng buddiannau a chymryd camau i sicrhau nad ydynt yn dylanwadu ar fy ymarfer | Wedi newid |
| 5.5 Camwahaniaethu'n anghyfreithlon neu heb gyfiawnhad yn erbyn unigolion, gofalwyr, cydweithwyr neu bobl eraill. | 5.5 peidio â thorri'r gyfraith a deall y byddai gwneud hynny yn gallu cwestiynu fy addasrwydd i ymarfer | Wedi newid |
| 5.6 Cymeradwyo unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon neu heb gyfiawnhad gan unigolion, gofalwyr, cydweithwyr neu bobl eraill. | 5.6 rhoi gwybod i fy nghyflogwr ac i Gofal Cymdeithasol Cymru os byddaf yn cael fy arestio neu fy nghyhuddo o drosedd | Wedi newid |

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 5.7 Achosi risg ddiangen i chi eich hun neu i bobl eraill. | 5.7 osgoi achosi risg ddiangen i fi fy hun ac i bobl eraill | Wedi newid |
| 5.8 Ymddwyn mewn ffordd a allai godi amheuaeth ynghylch eich addasrwydd i ymarfer yn y proffesiwn gofal cymdeithasol, a hynny yn y gwaith a'r tu allan i'r gwaith. | 5.8 peidio ag ymddwyn mewn ffordd a allai gwestiynu fy addasrwydd i ymarfer yn y proffesiwn gofal cymdeithasol, a hynny yn y gwaith a'r tu allan i'r gwaith, ar-lein neu wyneb yn wyneb. | Wedi newid |

## Adran 6

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 6.1 Bodloni safonau ymarfer perthnasol, dilyn gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd gyfreithlon, ddiogel ac effeithiol. | 6.1 darllen, deall a dilyn polisïau, gweithdrefnau a safonau ymarfer ac ymddygiad perthnasol | Wedi newid |
| 6.2 Cadw cofnodion clir a chywir yn unol â gofynion cyfreithiol a'r lleoliad gwaith. | 6.2 gweithio mewn ffordd ddiogel ac effeithiol bob amser, a dilyn y gyfraith | Wedi newid |
| 6.3 Bod yn agored a gonest gyda phobl os bydd pethau yn mynd o chwith, gan gynnwys rhoi esboniad llawn a phrydlon i'ch cyflogwr neu'r awdurdod priodol am beth sydd wedi digwydd. | 6.3 cadw cofnodion clir a chywir, gan ddefnyddio systemau a phrosesau y cytunir arnynt | Wedi newid |
| 6.4 Rhoi gwybod i'ch cyflogwr neu i'r awdurdod priodol am unrhyw anawsterau personol a allai effeithio ar eich gallu i wneud eich swydd yn ddigonol ac yn ddiogel. | 6.4 rhoi gwybod i fy nghyflogwr neu i gyd-weithiwr arall sy'n meddu ar y profiad a'r cymwysterau addas am unrhyw anawsterau sy'n effeithio ar fy ngallu i wneud fy swydd yn ddigonol ac yn ddiogel | Wedi newid |
| 6.5 Gofyn am gymorth gan eich cyflogwr neu'r awdurdod priodol os nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu neu eich bod yn ddigon parod i gyflawni unrhyw agwedd ar eich gwaith neu os nad ydych yn siŵr sut i fwrw ymlaen â mater gwaith. | 6.5 gofyn am gymorth gan fy nghyflogwr neu gyd-weithiwr arall sy'n meddu ar y profiad a'r cymwysterau addas, os nad ydw i'n gallu cyflawni unrhyw agwedd o fy ngwaith neu'n ansicr sut mae gwneud hynny | Wedi newid |

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 6.6 Gweithio’n agored ac yn gydweithredol â chydweithwyr a’u trin â pharch. | 6.6 bod yn agored ac yn onest gyda phobl os bydd pethau’n mynd o chwith, gan roi esboniad llawn a phrydlon | Wedi newid |
| 6.7 Deall eich bod yn gyfrifol o hyd am y gwaith rydych chi wedi ei ddirprwyo i weithwyr eraill. | 6.7 chwilio am gyfleoedd dysgu a datblygu perthnasol a’u cyflawni i gynnal a gwella fy ngwybodaeth a fy sgiliau i sicrhau fy mod yn addas i ymarfer | Wedi newid |
| 6.8 Cydnabod a pharchu rolau ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol eraill, a gweithio mewn partneriaeth â nhw. | 6.8 cymryd rhan weithredol ac effeithiol mewn goruchwyliaeth i fyfyrio ar fy ymarfer a chyfleoedd i wella fy ngwybodaeth a fy sgiliau | Wedi newid |
| 6.9 Ymgymryd â chyfleoedd dysgu a datblygu perthnasol i gynnal a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau i sicrhau eich bod yn addas i ymarfer, a chyfrannu at gyfleoedd dysgu a datblygu pobl eraill. | 6.9 gweithio’n agored ac ar y cyd â chyd-weithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, gan roi cymorth iddyn nhw os gallaf | Wedi newid |
| 6.10 Cydweithredu ag ymchwiliadau i’ch ymarfer, neu i ymarfer pobl eraill, a hynny gan eich cyflogwr, Gofal Cymdeithasol Cymru neu unrhyw gorff priodol arall. | 6.10 deall fy mod yn gyfrifol am waith rydw i’n ei ddirprwyo i eraill | Wedi newid |

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| | 6.11 cydweithredu ag ymchwiliadau i fy ymarfer, neu i ymarfer pobl eraill, a gynhelir gan fy nghyflogwr, Gofal Cymdeithasol Cymru neu unrhyw gorff priodol arall. | Wedi ei ychwanegu |

## Adran 7

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 7.1 Sicrhau bod staff yn gwybod am y Cod a sut mae'n berthnasol i'w hymddygiad a'u hymarfer. | 7.1 cefnogi diwylliant agored, diogel a chynhwysol lle gall staff godi pryderon a chael mynediad at arfer gorau, ei drafod, myfyrio arno a'i rannu | Wedi newid |
| 7.2 Cefnogi diwylliant agored sy'n dysgu yn y gweithle lle mae staff yn cael cyfle i godi pryderon a defnyddio, trafod a rhannu'r arferion gorau, a myfyrio arnynt. | 7.2 gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod am y Cod ac yn deall sut mae'n berthnasol i'w hymddygiad a'u hymarfer | Wedi newid |
| 7.3 Sicrhau bod cyfleoedd cynefino, hyfforddi, dysgu a datblygu yn helpu staff i gynnal a datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth. | 7.3 gwneud yn siŵr bod cyfleoedd cynefino, hyfforddi, dysgu a datblygu yn helpu staff i gynnal a datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth | Wedi newid |
| 7.4 Darparu goruchwyliaeth ac arfarniad i arwain, cefnogi a chymell staff i gyflawni eu rôl, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwyddau. | 7.4 darparu goruchwyliaeth ac arfarniad effeithiol i arwain, cefnogi a chymell staff i gyflawni cyfrifoldebau eu rôl, yn ogystal â'r hyn maen nhw'n atebol amdano | Wedi newid |
| 7.5 Cymryd camau i wybod beth sy'n digwydd o ran darparu gofal cymdeithasol a chymorth a ddarperir gan eich staff a rhoi adborth adeiladol. | 7.5 gwneud yn siŵr fy mod yn gwybod beth sy'n digwydd o ran darparu gofal cymdeithasol, fel adolygu cwynion ac adborth, neu fonitro perfformiad staff | Wedi newid |

| Cod blaenorol | Cod cyfredol | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| | **Rhaid i mi:** | |
| 7.6 Monitro perfformiad a chymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â pherfformiad anfoddhaol neu gamymddwyn gan staff. | 7.6 ymateb i unrhyw bryderon neu gwynion yn brydlon ac yn effeithiol, gan ddilyn unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol. | Wedi newid |